PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MAWRTH, 20 MEHEFIN 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Williams(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ash-Edwards, Carter, Henshaw, Hunt, Stubbs a/ac Thomson |

1 : CADEIRYDD AC AELODAETH Y PWYLLGOR

Nodwyd.

2 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd.

3 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Chowdhury.

Roedd y Cadeirydd hefyd wedi cael gwybod bod yr Arweinydd, y Cynghorydd Huw Thomas ar fusnes swyddogol y Cyngor ac yn methu â bod yn bresennol ar gyfer yr eitem Gwasanaethau Cyfreithiol.

4 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim wedi'u derbyn.

5 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16/05/23 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

6 : STRATEGAETH SWYDDFA GRAIDD

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn rhoi cyfle i'r Aelodau graffu cyn penderfynu ar Strategaeth Swyddfa Graidd y Cyngor. Roedd adroddiad y Cabinet a atodwyd yn Atodiad A y papurau cyhoeddedig yn gofyn am gymeradwyo Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Strategaeth Swyddfa Graidd gan ystyried opsiynau yn y dyfodol ar gyfer gofynion swyddfa graidd y Cyngor yn Neuadd y Ddinas a Neuadd y Sir. Byddai'r Achos Busnes Amlinellol (ABA) yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 22 Mehefin 2023 ac roedd yn gofyn am gymeradwyaeth i symud ymlaen i Achos Busnes Llawn ar yr opsiwn a ffefrir.

Ar gyfer yr eitem hon, croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Russell Goodway, yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu; Neil Hanratty, Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd; Donna Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ystadau'r Sir; a Chris Barnet, Rheolwr Gweithredol Prosiectau Mawr.

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol, ac ar ôl hynny rhoddodd y Swyddogion eu cyflwyniad.   Wedyn gofynnwyd i'r Aelodau am eu sylwadau, eu harsylwadau a'u cwestiynau.

Croesawodd y Pwyllgor y cyfle i drafod Achos Busnes Amlinellol y Strategaeth Swyddfa Graidd. Cytunodd yr Aelodau gyda'r dull o symud ymlaen wrth leihau effaith ar y gyllideb a diogelu rôl Neuadd y Ddinas. Nodwyd ymgysylltu parhaus â staff a gwasanaethau, ynghyd â'r broses sydd ar ddod o gaffael swyddfa newydd ar gyfer yr Achos Busnes Llawn.

Nododd yr Aelodau fod yr opsiwn a ffefrir yn seiliedig ar gost-effeithiolrwydd, a chydnabuwyd cadwraeth o ran Neuadd y Ddinas.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod yr ymchwil barhaus yn archwilio opsiwn amgueddfa ar gyfer cyllid treftadaeth, ond polisi'r Cyngor yw ymgorffori Neuadd y Ddinas yn ei swyddfa graidd. Cefnogodd y Pwyllgor hyn yn llawn gan ystyried y dylai gynnwys adfer y ffynnon yng nghynlluniau uwchraddio Neuadd y Ddinas.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau fod y cyfrifiad o 140,000 troedfedd sgwâr ar gyfer gwasanaethau swyddfa graidd yn gywir. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am y dosbarthiad staff presennol yn Neuadd y Sir a Neuadd y Ddinas, gyda newidiadau yng nghynlluniau desg yn arwain at lai o ofod swyddfa ar gyfartaledd fesul person. Amcangyfrifwyd bod y cynnig o 35,000 troedfedd sgwâr ar gyfer Neuadd y Ddinas yn darparu ar gyfer 400 o aelodau o staff, gan gynnig llawer mwy o ofod nag a ddefnyddir ar hyn o bryd. Roedd ymgysylltu helaeth â staff a gwasanaethau wedi dylanwadu ar y dyluniad i flaenoriaethu anghenion gweithio cydweithredol.

Cefnogodd yr Aelodau'r rhyddid i staff ddewis gweithio gartref neu yn y swyddfa a phwysleision nhw'r angen am hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer dewisiadau gofod swyddfa personol, ochr yn ochr â'r opsiwn i weithio gartref. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau y byddai'r Achos Busnes Llawn yn ystyried yr agwedd hon ac yn cynnig hyblygrwydd priodol.

Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd sicrhau bod unrhyw gynnig adeilad newydd yn cynnal lefel uwch o ansawdd a hirhoedledd o'i gymharu â Neuadd y Sir.

Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch yr amcangyfrif o £4-5 miliwn o refeniw ychwanegol sydd ei angen ar gyfer neuadd newydd y sir, o ystyried y diffyg dyraniad yng nghyllideb Cyfalaf y Cyngor ar gyfer y strategaeth swyddfa graidd a ffefrir.

Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb mewn clywed am y dull o gynnwys partner sector cyhoeddus ar gyfer swyddfa graidd a rennir bosibl yn Neuadd y Ddinas a'r Sir. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau, er nad oes trafodaethau wedi digwydd eto, cydnabuwyd arwyddocâd arweinyddiaeth y sector cyhoeddus, fel y dangoswyd gyda Neuadd y Sir ac Uwchgynllun Glanfa'r Iwerydd. Nodwyd y sicrwydd y byddai gofod lleoliad digwyddiadau Neuadd y Ddinas yn cael ei gadw ym mhob senario partneriaeth. At hynny, cydnabuwyd pe na bai partner addas yn dod i'r amlwg, y gallai'r Cyngor symud ymlaen yn annibynnol.

Cydnabu'r Aelodau y byddai archwiliad manylach yn digwydd yn achos mynd ymlaen i Achos Busnes Llawn, er mwyn gwella tryloywder ynghylch y materion canlynol:

- Opsiynau ariannu, gan gynnwys rheoli dyled yr aethpwyd iddo.

- Strategaethau i fynd i'r afael â charbon ymgorfforedig, gan amlinellu'n fanwl sut y bydd yn cael ei drin o fewn yr opsiwn a ffefrir.

- Ffyrdd o gynhyrchu mwy o incwm o ofod swyddfa Neuadd y Ddinas.

- Trefniadau prydlesu posibl.

- Amlinelliad cliriach o'r anfanteision sy'n gysylltiedig â chynnal Neuadd y Sir fel swyddfa graidd.

PENDERFYNWYD - Gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar y pwynt hwn tra bod y Pwyllgor yn trafod yr eitem hon a oedd yn cynnwys gwybodaeth wedi’i heithrio yn unol â’r disgrifiad ym mharagraffau 14 a 16 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd gael eu gwahardd o’r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

7 : GWASANAETHAU CYFREITHIOL

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried ai model presennol y Cyngor o ddarparu Gwasanaethau Cyfreithiol yw'r un cywir ar gyfer ei anghenion. Roedd y Cyfarwyddwr Cyfreithiol a Llywodraethu yn bresennol i friffio'r Pwyllgor ar sefyllfa'r gyllideb, pa fodelau amgen sy'n bodoli ar gyfer darparu gwasanaethau cyfreithiol, a pha mor wydn yw'r gwasanaeth i ymdopi â gofynion y dyfodol.

Ar gyfer yr eitem hon, croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Foderneiddio, Cyllid a Pherfformiad, Davina Fiore, Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol, a Leanne Weston, Rheolwr Gweithredol Cymunedau.

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol, ac ar ôl hynny rhoddodd y Swyddogion eu cyflwyniad. Wedyn gofynnwyd i'r Aelodau am eu sylwadau, eu harsylwadau a'u cwestiynau.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am yr heriau presennol sy'n wynebu Gwasanaeth Cyfreithiol y Cyngor, gan gynnwys materion gyda recriwtio a chadw cyfreithwyr, y strwythur cyflog a graddio, gorwario ar gyllideb staffio oherwydd gweithwyr locwm, llwythi gwaith uchel, ac anawsterau wrth gael cyfarwyddiadau cyflawn gan adrannau cleientiaid, a gwnaeth yr Aelodau gydnabod yr heriau hyn.

Nododd yr Aelodau fod galw cynyddol am Wasanaethau Cyfreithiol, a allai fod wedi ei ddylanwadu gan ymddeoliad swyddogion profiadol ac ymddangosiad deddfwriaeth newydd. Nododd yr Aelodau hefyd fod cymhlethdod achosion yn y Gwasanaethau Plant, fel y rhai sy'n ymwneud â phlant ar draws gwahanol wledydd fel achosion ffoaduriaid, wedi cyfrannu at y galw cynyddol hwn.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod cymorth ariannol ychwanegol ar gyfer achosion cymhleth yn mynd i adrannau cleientiaid yn bennaf yn hytrach na'r Gwasanaethau Cyfreithiol. Daethpwyd o hyd i ateb mewnol drwy gynyddu cyllideb y Gwasanaethau Cyfreithiol, sy'n cyd-fynd â'r gyllideb gynyddol ar gyfer Gwasanaethau Plant, yn

enwedig ar gyfer achosion sy'n ymwneud â gorchmynion llys. Nododd yr Aelodau, er gwaethaf aliniadau cyllideb dros y tair blynedd diwethaf, fod arwyddion y gallai Gwasanaethau Cyfreithiol fod â diffyg adnoddau o hyd.

Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw at y ffaith bod Gwasanaethau Cyfreithiol mewn gwahanol gynghorau, gan gynnwys Caerdydd, yn wynebu heriau ac nad oes enghreifftiau o gynghorau eraill Cymru yn darparu Gwasanaeth Cyfreithiol gwell. Mewn gwirionedd, gofynnir yn aml i Gaerdydd rannu ei harferion gorau yn hyn o beth.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau y gall y Cyngor reoli risgiau gan ddefnyddio ei gyllideb ffioedd allanol wrth wynebu adnoddau staff cyfreithiol annigonol. Mae gwaith cyfreithiol y Cyngor yn ymwneud yn bennaf â materion statudol, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag unigolion sy'n agored i niwed, ac mae ôl-groniad o waith o'r fath yn annerbyniol.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau nad yw'r Cyngor wedi colli achos cyfreithiol yn ystod y 12 mis diwethaf oherwydd ei drin yn fewnol yn hytrach na'i roi ar gontract allanol. Mae Gwasanaethau Cyfreithiol yn canolbwyntio ar reoli risg, ac mae'r staff cyfreithiol yn ymwybodol o weithdrefnau uwchgyfeirio os yw'r galw'n mynd yn llethol. Nododd yr Aelodau fod gan lysoedd yr awdurdod i gyhoeddi gorchymyn costau wedi’u gwastraffu yn erbyn y Cyngor am achosi oedi mewn achosion, ond ni chyhoeddwyd unrhyw orchmynion o'r fath.

Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd cefnogi lles staff yn yr adran Gwasanaethau Cyfreithiol, o ystyried y galw a'r heriau anrhagweladwy o ran recriwtio a chadw. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod staff yn gwerthfawrogi opsiynau gweithio hyblyg a gwaith o bell, ynghyd â mynediad at wasanaethau cymorth lles cynhwysfawr.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod straen yn cael ei reoli'n effeithiol o fewn yr adran, ac er gwaethaf heriau recriwtio, mae llawer o staff yn aros gyda'r Cyngor am gyfnod estynedig.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

8 : BUSNES Y PWYLLGOR

Cymeradwywyd yr Adroddiad Craffu Blynyddol drafft ar gyfer 2022/23 i'w gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Cyngor llawn.

Nododd yr Aelodau fod disgwyl i grŵp gorchwyl a gorffen y Cynllun Datblygu Lleol Newydd gyfarfod ar 7 Gorffennaf 2023 am 10am.

Nododd yr Aelodau ddyddiadau dros dro cyfarfodydd y pwyllgor a restrwyd yn yr adroddiad. Dywedodd y Cadeirydd fod pob un o'r dyddiadau yn disgyn y noson cyn cyfarfod y Cabinet, ond roedd wedi cael sicrwydd y byddai'r calendr yn cael ei ail-ystyried pan fo’r Cyngor mewn sefyllfa i gynnal dau gyfarfod ar yr un pryd a chyflawni ei gyfrifoldebau gwe-ddarlledu.

9 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi’u derbyn.

10 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

12 Gorffennaf 2023 am 4.30pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.53 pm